

Lle Mwy Cyfartal

Lle sy'n galluogi pobol i gyflawni eu potensial does wahaniaeth beth yw eu cefndir neu amgylchiadau (yn cynnwys eu cefndir neu amgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

Sefyllfa a gweithredoedd cyfredol

Mae ardal Llanelli Wledig yn cynnwys ystod eang o bobol sy'n profi amgylchiadau economaidd cymdeithasol gwahanol. Mewn ardal sydd â chyfartaledd uwch nag arfer o amddifadedd mae ystod o raglenni presennol yn targedu eu hymdrechion i helpu i gau'r bwlch rhwng y cymunedau tlotaf a chyfoethocaf. Mae Cymunedau'n Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg i gyd yn gweithredu yn rhai o wardiau'r ardal Wledig gan gynnig rhaglenni i daclo mynediad at swyddi, gwella iechyd ac addysg. Gwelir diffyg mynediad i rwydwaith ehangach o gysylltiadau cymdeithasol a gwaith fel rhwystr pwysig i daclo anghydraddoldeb. Mae agosatrwydd cymunedau gyda mwy o gyfalaf cymdeithasol ochr yn ochr ag ardaloedd mwy amddifad yn galluogi'r rhwydweithiau hyn i ddatblygu dros yr ardal. Mynegodd ardaloedd hefyd bryderon arbennig ynglŷn ag argaeledd darpariaeth gwasanaeth ieuenctid.

Ymyriadau arfaethedig

Ehangu rhaglen cyfeillion stryd/pentref

Buddsoddi mewn creu rhwydwaith o gysylltiadau lleol ar gyfer gwella cyngor a chymorth anffurfiol a chyfeirio at raglenni cymorth gan ddysgu oddi wrth y dull peilot sy'n gysylltiedig â Rhaglen Credydau Amser.

Rhaglen datblygu cyfleusterau leuenctid

Arolwg o ddarpariaeth a rhaglen ddatblygu gwasanaethau leuenctid - cyfalaf a refeniw - a gweithio gyda chymunedau i ddatblygu ymatebion mewn ardaloedd a nodir sydd mewn angen.

Mynd i'r afael â chanfyddiad diffyg cyfleusterau - awyr agored (gweler Ymddiriedolaeth Mannau Gwyrdd - tudalen 11) a dan do mewn lleoliadau penodol a phryderon ynglŷn â defnyddio cyffuriau ac ymddygiad gwrth gymdeithasol, a amlinellir ar dudalen 14.

Partneriaid – Cymunedau'n Gyntaf, Spice, Cyngor Sir Caerfyrddin.

Mesuriadau cynnydd – Nifer o fentrau cymorth ar draws y cymunedau.

Blaenoriaethau Lleol – Cysylltiad ag Ymddiriedolaeth Mannau Agored a Gwyrdd – pryderon penodol yn Llwynhendy, Pum Heol.